**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU 2022 - 2027**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2022 - 2027 a gynhaliwyd Dydd Mercher, 13 Rhagfyr 2023 am 4.00 pm ym Rhithwir.

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2022 - 2027 Aelodau oedd yn bresennol**:-:-

Y Cynghorydd J Edwards (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd B Stephens | Y Cynghorydd M Ashford |
| Y Cynghorydd R Bevan | Y Cynghorydd J Bonetto |
| Y Cynghorydd R Davis | Y Cynghorydd Sera.Evans |
| Y Cynghorydd S Emanuel | Y Cynghorydd Sheryl Evans |
| Y Cynghorydd C Middle | Y Cynghorydd S Morgans |
| Y Cynghorydd G L Warren | Mr M Veale |

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Ms A Richards, Cyfarwyddwr Dros Dro – Ysgolion yr 21ain Ganrif a Materion Trawsnewid
Mr P Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella
Mr S Williams, Pennaeth Materion Buddsoddi Strategol
Ms L Kidner, Rheolwr Busnes, Arlwyo
Mr A Critchlow, Rheolwr Gwasanaethau Parcio a Gwaith Stryd
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Ms S Daniel, Uwch Swyddog Gwasanaethau Llywodraethol

**Ymddiheuriadau**

Y Cynghorydd K Morgan

**39 Datganiadau o Fuddiant**

Yn unol â'r cod ymddygiad, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**40 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD:** Cafodd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 31 Hydref 2023 a 13 Tachwedd 2023 eu cadarnhau'n gofnodion gwir a chywir o’r cyfarfodydd.

Gofynnodd y Cynghorydd Sera Evans i'w henw llawn a ac enw llawn y Cynghorydd Sheryl Evans gael eu defnyddio yn y cofnodion yn y dyfodol i osgoi dryswch ynghylch presenoldeb.

**41 Ymgynghori ar Gyllideb 2024–25 (Cam 1)**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yr

adroddiad i Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i ymgynghori â nhw ac i ymateb yn ffurfiol i gam cyntaf Ymgynghoriad Cyllideb 2024–25 y Cyngor. Cafodd yr Aelodau wybod y bydd adborth y Pwyllgor yn cael ei gynnwys mewn adroddiad ar yr Ymgynghoriad ar y Gyllideb, yn ogystal â'r holl adborth arall gan randdeiliaid. Bydd yr adroddiad yn cael ei ystyried gan y Cabinet yn rhan o lunio Strategaeth Cyllideb Refeniw ddrafft ar gyfer 2024/25. Bydd y Strategaeth Cyllideb Refeniw ddrafft wedyn yn cael ei rhag-graffu gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn rhan o gam 2 y broses Ymgynghori ar y Gyllideb yn gynnar yn 2024.

Yna rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Gwella gyflwyniad i'r Aelodau ar gam 1 yr Ymgynghoriad ar y Gyllideb.

Dywedodd Aelod y dylai'r Cyngor gyfathrebu'n well i drigolion sut mae cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn cael eu defnyddio gan fod camsyniad cyffredin bod gan y Cyngor arian dros ben. Dywedodd yr Aelod hefyd, er eu bod nhw'n deall bod trigolion i gyd yn delio ag argyfwng costau byw, bod gan y Cyngor ddyletswydd o hyd i lunio cyllideb gytbwys.

Dywedodd Aelod fod angen i ni barhau i ddiogelu a blaenoriaethu'r gyllideb addysg a buddsoddi yn ein plant a'n pobl ifainc.

Gofynnodd Aelod sut mae'r Cyngor yn ymgysylltu â'r cyhoedd wrth ymgynghori ar y gyllideb ac roedd yn falch o nodi bod ymgysylltu wedi digwydd gyda phobl ifainc.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Gwella fod lleoliadau penodol yn cael eu dewis i sicrhau ein bod ni'n gwneud y mwyaf o'r cyfle i ymgysylltu wyneb yn wyneb gyda'r cyhoedd a bod carfan o swyddogion ym mhob achlysur ymgynghori i gynorthwyo ac ateb cwestiynau. Yna dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod yr ymgysylltu hyd yma wedi bod yn dda, a bod llawer o bobl ifainc hefyd wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad trwy achlysuron ymgynghori mewn ysgolion uwchradd penodol.

Cyfeiriodd yr Aelod Cyfetholedig at y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ar gyfer prosiectau penodol a gofynnodd a oes modd i'r Cyngor adolygu'r prosiectau i sicrhau eu bod nhw'n mynd yn eu blaenau ac, os nad ydyn nhw, bod yr arian yn cael ei ailddyrannu. Roedd yr Aelod Cyfetholedig hefyd yn cwestiynu rôl y pwyllgor Craffu o ran nodi arbedion i wella effeithlonrwydd a sut mae'r Awdurdod yn cydweithio gydag Awdurdodau Lleol eraill i sicrhau arbedion.

Rhannodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Gwella bod £105 miliwn, sef tua 53% o gronfeydd wrth gefn y Cyngor, wedi'u clustnodi ar gyfer cyflawni'r Rhaglen Gyfalaf gyfredol a buddsoddi parhaus mewn seilwaith, gydag arian arall o'r cronfeydd wrth gefn wedi'i neilltuo at ddibenion penodol, megis rheoli prosiectau cyfredol a risgiau allweddol. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod cronfeydd wrth gefn yn cael eu hadolygu'n barhaus ac yn cael eu hadrodd i Aelodau etholedig o leiaf ddwywaith y flwyddyn i ddarparu opsiynau ar gyfer ail-flaenoriaethu cronfeydd wrth gefn penodol, lle bo'n briodol, i gefnogi buddsoddiad ychwanegol ym meysydd blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol. Aeth y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ymlaen i sôn am y broses o nodi arbedion cyllidebol a dywedodd fod dull y Cyngor ar waith drwy'r sefydliad cyfan ac yn cael ei arwain gan yr Uwch Garfan Arwain. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod Swyddog Adran 151 y Cyngor yn cydlynu sesiynau adolygu a herio gydag uwch swyddogion i nodi cyfleoedd arbed at ddibenion

effeithlonrwydd sy'n diogelu gwasanaethau rheng flaen a nododd oherwydd maint y bwlch a ragwelir yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, sef £35 miliwn, bod y broses wedi golygu bod angen adrodd ar gynigion newid gwasanaeth i'r Cabinet er mwyn ystyried a ddylid symud ymlaen i broses ymgynghori cyhoeddus. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth hefyd fod y gwaith o adolygu'r gyllideb yn cynnwys ystyried cyfleoedd i gydweithio â sefydliadau eraill, er mwyn i arbedion cyllideb y cytunwyd arnynt gael eu cynnwys yn y gyllideb a'r wybodaeth ddiweddaraf ar gyflawniad ariannol yn ystod y flwyddyn gael eu hadrodd i'r Cabinet a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn rhan o Adroddiadau Cyflawniad Chwarterol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch y cynnig i godi Treth y Cyngor, ymatebodd Cyfarwyddwr y Gwasanaeth bod yr rhagfynegiadau presennol yn awgrymu y bydd llawer o awdurdodau lleol ledled Cymru yn ymgynghori ar godiadau i dreth y cyngor o 5% neu'n uwch, gyda safle arfaethedig Rhondda Cynon Taf ar ben isaf y raddfa yma ar hyn o bryd.

Gofynnodd Aelod a yw'r Cyngor wedi ymchwilio i'r opsiwn o greu incwm o'r tir a'r adeiladau diwydiannol y mae'n berchen arnynt, ac o werthu asedau nad ydyn ni'n eu defnyddio mwyach neu nad sydd eu hangen arnon ni. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Gwella fod y Cyngor yn creu incwm o adeiladau penodol y mae'n berchen arnynt ac yn adolygu ei holl asedau'n barhaus i sicrhau bod cyfleoedd codi incwm yn cael eu manteisio arnynt a bod gwerthu asedau'n cael ei hystyried lle bo hynny er lles gorau'r Cyngor. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod y prosesau yma hefyd yn cynnwys ymgysylltu â busnesau a darpar ddatblygwyr gyda'r nod o ddenu mewnfuddsoddiad i'r Fwrdeistref Sirol.

Cyfeiriodd Aelod at rai Awdurdodau Lleol yn Lloegr sydd wedi cyhoeddi hysbysiadau Adran 114 a gofynnodd beth oedd y ffactorau a gyfrannodd at y rhain, ac a oes modd i'r Aelodau fod yn sicr bod rheolaeth ariannol gadarn ar waith i atal y Cyngor rhag cyrraedd sefyllfa o'r fath.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Gwella fod themâu cyson o ran trefniadau llywodraethu yn lleodd ble mae hysbysiadau adran 114 wedi'u cyhoeddi gan awdurdodau lleol yn Lloegr, megis gwendidau neu ddiffyg eglurder ynghylch arweinyddiaeth a phrosesau gwneud penderfyniadau a chraffu. Aeth y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ymlaen i drafod rhai o drefniadau'r Cyngor, gan ddweud bod trefniadau cynllunio a rheoli ariannol cadarn yn eu lle, fel y dangoswyd trwy lunio cyllidebau cytbwys yn gyson a'u rhoi ar waith, er mwyn cefnogi cyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol. Nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth hefyd fod gan y Cyngor ddull agored a thryloyw o wneud penderfyniadau ac adrodd ar gyflawniad, gyda phwyllgorau craffu yn rhan allweddol o'r trefniadau yma. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod trefniadau'r Cyngor yn cael eu hategu gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda a chyfeiriodd at enghreifftiau o adroddiadau cadarnhaol gan archwiliwr allanol y Cyngor, Archwilio Cymru, yn dangos barnau archwilio clir ar ddatganiadau o gyfrifon blynyddol y Cyngor.

O ran Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor, chafodd dim newidiadau arfaethedig i'r trefniadau presennol sydd ar waith eu hamlygu gan y Pwyllgor.

Yn dilyn diwedd y drafodaeth, **PENDERFYNWYD** gwneud y canlynol:

1. Rhoi adborth ar yr Ymgynghoriad ar Gyllideb 2024–25 y Cyngor.

Gofyn i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu roi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i'r Cabinet.

**42 CRAFFU AR NEWIDIADAU I WASANAETHAU YN AMODOL AR YMGYNGHORIAD**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yr adroddiad i'r Aelodau i ofyn am eu hadborth er mwyn ymateb yn ffurfiol i ymgynghoriadau'r Cyngor ar Barhad Darpariaeth Clwb Brecwast Am Ddim mewn Ysgolion Cynradd ac Arbennig gyda thâl am yr elfen gofal plant ychwanegol i gael ei gyflwyno ac Adolygiad o Bolisi Cludo Disgyblion o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor.

Yn dilyn trafodaeth, derbyniwyd yr adborth, y cwestiynau a'r sylwadau canlynol gan yr Aelodau:

**Parhad Darpariaeth Clwb Brecwast am Ddim mewn ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig a chyflwyno tâl am yr elfen gofal plant ychwanegol**

Gofynnodd Aelod beth fydd yr effaith ar staff sy'n rhedeg y Gwasanaeth Clwb Brecwast presennol ac a fydd modd i'r nifer o staff ymdopi ag unrhyw newid i'r gwasanaeth.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, er ei bod hi'n anodd rhagweld yr effaith ar staff ar hyn o bryd, ni ragwelir effaith sylweddol. Os bydd y galw am y ddarpariaeth yn cynyddu, bydd angen i'r gwasanaeth sicrhau bod nifer priodol o staff. Cafodd ei gydnabod gan y Cyfarwyddwr fod recriwtio yn y Gwasanaethau Arlwyo yn heriol a bod cael swyddi gwag yn y gwasanaeth yma'n weddol gyffredin. Rhoddodd sicrwydd y bydd hyn yn cael ei fonitro'n agos.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant nad oedd llawer o bobl wedi mynychu'r achlysuron Ymgysylltu â'r Gymuned hyd yn hyn, ond bod llawer mwy o ymateb wedi dod i law ar-lein. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y themâu sy'n dod i'r amlwg yn dangos bod rhai ymatebwyr wedi gofyn am hyblygrwydd o ran codi tâl am 5 diwrnod yr wythnos gan fod nifer ohonyn nhw ddim yn defnyddio'r gwasanaeth bob dydd. Fodd bynnag, dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai trefniadau codi tâl hyblyg yn dod â chostau gweinyddol ychwanegol ac felly bydd angen safbwynt cytbwys. Adleisiodd sawl Aelod arall y pwynt yma gan na fydd angen i bob teulu ddefnyddio'r cyfleuster 5 diwrnod yr wythnos. Gofynnodd yr Aelodau i'r agwedd yma gael ei hadolygu ac ystyried opsiwn mwy hyblyg cyn gwneud penderfyniad terfynol.

Roedd Aelod yn pryderu ein bod ni'n ychwanegu at bwysau ariannol teuluoedd sydd eisoes yn cael trafferth gyda'r argyfwng costau byw a gofynnodd a oedd opsiynau eraill y byddai modd eu hystyried.

Atebodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant fod yr Awdurdod eisoes yn darparu ystod o gymorth i deuluoedd a rhoddodd sicrwydd y bydd y cynnig yn cynnal brecwast am ddim mewn ysgolion fel y mae ar hyn o bryd, cynnig sydd fel arfer ar gael o 8.30am. Mae'r tâl arfaethedig ar gyfer y ddarpariaeth gofal plant o 8am. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr y bydd adborth yr ymgynghoriad yn cael ei gasglu a'i adrodd i'r Cabinet i'w ystyried yn rhan o'r

broses o wneud penderfyniadau.

Mewn ymateb i sylwadau ynghylch amseru lle mae rhai ysgolion yn dechrau eu darpariaeth yn hwyrach, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant fod yr amseroedd cychwyn / gorffen yn cael eu pennu gan bob ysgol unigol ac yn unol â'u diwrnod ysgol. Aeth y Cyfarwyddwr ymlaen i ddweud y bydd y gwasanaeth yn gweithio gyda charfanau arwain yr ysgolion i sicrhau bod dull cyson yn cael ei ddefnyddio a rhoddodd sicrwydd y bydd pob ysgol yn rhoi'r cyfle i bob disgybl o'r meithrin i Flwyddyn 6 gael brecwast am ddim, waeth beth fo'i hamseroedd cychwyn / gorffen.

**Adolygiad o Bolisi Cludo Disgyblion o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor**

Tynnodd Aelod sylw at bryderon yr oeddent wedi clywed gan rieni a gwarcheidwaid ynghylch llwybrau cerdded diogel Gofynnodd am ragor o eglurder ynghylch yr hyn a ystyrir yn llwybr cerdded diogel a gofynnodd i hyn gael ei gyfathrebu i'r cyhoedd.

Dywedodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd, Gofal Strydoedd a Chludiant wrth yr Aelodau y bydd y llwybrau cerdded diogel yn cael eu hailasesu i sicrhau eu bod nhw'n ddiogel i ddisgyblion eu defnyddio. Ychwanegodd fod rhan o'r broses adolygu yn cynnwys edrych ar balmentydd, cyrbiau isel a mannau croesi a'u bod nhw'n cael eu hadolygu'n annibynnol.

Gofynnodd Aelod beth fyddai'r effeithiau tebygol ar bresenoldeb o ganlyniad i'r cynigion gan fod pryderon gyda'r Aelod y byddai hyn yn effeithio ar bresenoldeb mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant fod yr Awdurdod yn blaenoriaethu ac yn buddsoddi mewn gwella presenoldeb yn barhaus. Er enghraifft, mae swyddi swyddogion ymgysylltu â theuluoedd penodol wedi'u hariannu a'u recriwtio i gefnogi ailymgysylltu plant mewn addysg. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod gwaith yn y maes yma'n mynd rhagddo a bod tasglu ar waith i adolygu presenoldeb ledled Cymru gyfan. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr fod Rhondda Cynon Taf ar hyn o bryd yn un o bedwar Awdurdod Lleol yng Nghymru sy'n darparu cludiant o'r cartref i'r ysgol y tu hwnt i'r gofyniad cyfreithiol statudol.

Gofynnodd Aelod a oedd yr Awdurdod wedi ystyried lleoedd ble mae ysgolion wedi adleoli a'r effaith y bydd hyn efallai'n ei gael ar bresenoldeb disgyblion gan y bydd plant yn awr yn gorfod teithio ymhellach am gost uwch, o bosibl, neu'n gorfod cerdded ymhellach.

Dywedodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd, Gofal Strydoedd a Chludiant mai dewis y rhiant / rhieni oedd ble roedd eu plant yn mynychu'r ysgol. Mae'r cynnig yma'n ymwneud â darpariaeth statudol cludiant o'r cartref i'r ysgol y Cyngor. Aeth ymlaen y ddweud efallai y gwelwn ni newid o ran cydbwysedd gyda disgyblion yn dewis cael eu haddysgu mewn ysgolion gwahanol.

Mynegodd yr aelodau bryderon y byddai modd i'r cynigion gael effaith andwyol ar allu'r Awdurdod i gyflawni Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg gan y bydd disgyblion sy'n mynychu ysgolion Cymraeg ar hyn o bryd efallai'n dewis mynychu ysgol Saesneg pe bai hyn yn gwneud trefniadau teithio yn haws. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant fod Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg wedi'i gynnal yn rhan o'r cynnig ac y bydd y themâu

allweddol yn cael eu hadrodd i'r Cabinet i'w hystyried yn rhan o'r broses o benderfynu.

Mynegodd yr Aelodau bryder hefyd ynghylch yr effaith negyddol y bydd y cynnig yn ei chael ar blant sy'n byw mewn tlodi. Dywedodd Aelod efallai y bydd angen i blant sydd wedi'u heffeithio gerdded ymhellach a chodi'n gynt i fynd i'r ysgol, ac felly efallai y byddant yn llai tebygol o fynychu. Roedd yr Aelod hefyd o'r farn y bydd modd i hyn gael effaith negyddol ar ôl troed carbon y Cyngor gyda rhagor o geir ar y ffordd yn debygol o ganlyniad.

Dywedodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd, Gofal Strydoedd a Chludiant fod cydnabyddiaeth y bydd hyn yn achosi newid i rai teuluoedd ond fod effeithiau cadarnhaol hefyd ar iechyd a lles gyda llwybrau cerdded diogel ar gael i deuluoedd. Bydd potensial traffig ychwanegol yn cael ei ystyried yn rhan o ailasesu llwybrau diogel i ysgolion a'r adborth o'r ymgynghoriad. Yn ogystal â hyn, bydd gwaith yn cael ei wneud gyda Trafnidiaeth Cymru i ystyried opsiynau trafnidiaeth amgen.

Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd, Gofal Strydoedd a Chludiant na fydd modd i'r Awdurdod godi tâl am seddi gwag ar fysiau yn y dyfodol oherwydd bod rheoliadau'n cael eu gorfodi lle bydd angen i bob cerbyd lle codir tâl fod yn hygyrch i gadeiriau olwyn.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD** gwneud y canlynol:

1. Ystyried ymateb i'r cynigion y manylir arnynt isod ym mharagraff 5 (yr adroddiad 'Ymgynghoriadau CBSRhCT') fel ymgynghorai.
2. Fel Pwyllgor, ystyried rhoi sylwadau, arsylwadau neu argymhellion pellach mewn perthynas â'r cynigion yma cyn i'r Cabinet eu hystyried.

Gofyn i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu roi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i'r Cabinet.

## 43 Adroddiad Cyflawniad ac Adnoddau'r Cyngor (Chwarter 2)

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yr adroddiad ar Gyflawniad y Cyngor (Chwarter 2) hyd at 30 Medi 2023, i'r Aelodau. Rhoddodd wybod am bwysigrwydd yr wybodaeth yma i'r broses graffu, yn enwedig o ran darparu gwasanaethau, ond hefyd o ran pennu materion i'w trafod ymhellach yn seiliedig ar yr wybodaeth am gyflawniad sy'n cael ei darparu. Ychwanegodd mai cyfrifoldeb y Pwyllgor yma yw cyfeirio unrhyw eithriadau at y pwyllgor craffu priodol i'w trafod ymhellach, a hynny o dan y cylch gorchwyl.

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Gwella'r adroddiad i Aelodau a oedd yn cynnwys manylion am ddatganiadau o sefyllfa chwarter 2 ar gyfer refeniw a chyflawniad y gyllideb gyfalaf; dangosyddion darbodus Rheoli'r Trysorlys; gwybodaeth am Iechyd y Sefydliad gan gynnwys trosiant staff, salwch a risgiau strategol y Cyngor; cynlluniau gweithredu blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol (gan gynnwys dangosyddion cyflawniad a buddsoddi); a rhaglen barhaus y Cyngor o waith i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

Yn dilyn y cyflwyniad, rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau.

Nododd Aelod y lefel uchel o salwch staff mewn meysydd gwasanaeth penodol a gofynnodd a yw hyn yn cael ei fonitro a sut mae staff yn cael eu cefnogi i fod yn iach yn y gwaith.
Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Gwella fod Gwasanaeth Adnoddau Dynol y Cyngor yn rhoi cymorth wedi'i dargedu i wasanaethau i gefnogi staff i ddychwelyd i'r gwaith mor amserol â phosibl a nododd fod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i brofi heriau penodol o ran lefelau salwch. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod y trefniadau'n cael eu llywio gan wybodaeth amser real a ddarperir i reolwyr gwasanaeth am bresenoldeb staff er mwyn llywio camau gweithredu amserol, gyda Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol y Cyngor yn cynnig ystod eang o gymorth a thriniaethau i staff.

Gofynnodd Aelod pam fod oedi ar rai prosiectau rhaglen gyfalaf wedi bod. Dywedodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd, Gofal Strydoedd a Chludiant fod hyn yn rhannol oherwydd oedi gyda chontractwyr a fu'n anodd ei reoli ar ôl y pandemig o ganlyniad i heriau o ran cyflenwad a galw. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr fod Rhaglen Gyfalaf y Cyngor yn cynrychioli buddsoddiad sylweddol mewn nifer fawr o brosiectau, ac yn gyffredinol, mae'r rhain yn cael eu cyflawni ar amser ac o fewn eu cyllidebau. Nododd y bydd y Cyngor yn parhau i gymhwyso ei drefniadau rheoli prosiect cadarn gyda chontractwyr i sicrhau eu bod nhw'n parhau i gyflawni prosiectau.

Tynnodd Aelod sylw at y graddfeydd coch a gwyrdd ar gyfer 'cynnydd hyd yn hyn' yn yr wybodaeth ddiweddaraf o ran cynllun gweithredu'r Cynllun Corfforaethol. Gofynnodd a ddylid ymgorffori graddiad ychwanegol lle mae camau gweithredu ar y trywydd iawn i gael eu cyflawni erbyn dyddiad targed yn y dyfodol. Cyfeiriodd yr Aelod hefyd at y Gofrestr Risg ac awgrymodd fod angen mwy o sôn am nodi cynnydd yn erbyn rheolaethau a chamau gweithredu.

Nododd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Gwella y bydd yr adborth a ddarparwyd yn cael ei ystyried a, lle bo'n briodol, yn cael ei adlewyrchu mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Gofynnodd Aelod pa effaith mae pwysau cyllidebol wedi'u cael ar gyflawniad staff ac a oes digon o gefnogaeth ar gael ar eu cyfer. Roedd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Gwella yn cydnabod fod heriau ym mhob un o wasanaethau'r Cyngor a rhoddodd sicrwydd bod blaenoriaethau a llwythi gwaith yn cael eu monitro'n agos, a bod y Cyngor yn parhau i fuddsoddi mewn hyfforddi a datblygu staff i gefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth hefyd at hunanasesiad diweddaraf y Cyngor sydd i'w adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nes ymlaen ym mis Rhagfyr, a oedd yn nodi, sefyllfa cyflawniad cadarnhaol yn gyffredinol o ystyried heriau mae'r Cyngor yn eu hwynebu.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD** gwneud y canlynol:

1. Craffu ar sefyllfa cyflawniad ariannol a gweithredol y Cyngor ar 30 Medi 2023 (Chwarter 2).

Ystyried a oes awydd craffu'n fanylach ar unrhyw faterion a gynhwysir yn yr adroddiad yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor.

**44 Materion Brys**

Dim

**45 Adolygiad y Cadeirydd a dod â'r cyfarfod i ben**

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.55 pm**

**Y Cynghorydd J Edwards**
**Cadeirydd.**